



Labour market
evidence programme

Argymhellion ar gyfer staff cyflawni Polisi Gweithredol ar gyfer y Farchnad Lafur (ALMP)

Cefnogi cyflogwyr i recriwtio pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd

Gwersi o'r dystiolaeth

Lluniwyd y daflen wybodaeth hon ar gyfer staff Polisi Gweithredol ar gyfer y Farchnad Lafur (ALMP) mewn rolau sy'n dod i gysylltiad â chyflogwyr, fel y rhai sy'n cyflawni'r rhaglenni Cysylltu â Gwaith, WorkWell a Blaengaredd. Mae'n darparu argymhellion ar sut y gall staff cyflawni gefnogi cyflogwyr i sicrhau bod arferion recriwtio yn fwy cynhwysol i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, yn ogystal â gwella canlyniadau cyflogaeth y grŵp hwn.


Mae'r argymhellion yn seiliedig ar asesiad cyflym o'r dystiolaeth a gynhaliwyd yn 2026 gan ddefnyddio dystiolaeth o ansawdd uchel a chymedrol.



Sut y gall staff cyflawni ddefnyddio'r argymhellion hyn

Bwriad yr argymhellion hyn yw cefnogi staff cyflawni sy'n dod i gysylltiad â chyflogwyr. Gall staff cyflawni chwarae rhan bwysig wrth gynnal sgysia, meithrin hyder cyflogwyr a chyfeirio cyflogwyr at offer ymarferol a chynlluniau. Yn bennaf, fe wnaeth y dystiolaeth o'r adolygiad nodi arferion cyflogwyr sy'n gysylltiedig â phrosesau recriwtio mwy cynhwysol. Mae'r argymhellion isod yn disgrifio ffyrdd y gallai staff cyflawni gefnogi cyflogwyr i ystyried yr arferion hynny a'u rhoi ar waith.

Camau gweithredu a argymhellir ar gyfer staff



Cyfeirio cyflogwyr at gynlluniau, adnoddau a chymorth:

Gall staff cyflawni ALMP ddarparu arweiniad dibynadwy a chlir i gyflogwyr ar gynlluniau ac offer perthnasol, fel Mynediad at Waith, Hyderus o ran Anabledd a Phasbortau Addasiad Iechyd. Efallai y bydd angen help ar gyflogwyr i ddeall pryd i ddefnyddio'r cynlluniau a'r offer hyn, a sut y gallant gynorthwyo gyda phrosesau recriwtio.*

Gweler taflen gyfeirio [Dolenni defnyddiol i gyflogwyr: recriwtio cynhwysol](#) y Rhaglen Tystiolaeth ar y Farchnad Lafur am ddolenni i wybodaeth bellach a allai fod o gymorth i gyflogwyr.



Camau gweithredu a argymhellir ar gyfer staff (parhau)



Helpu i feithrin gallu a hyder cyflogwyr lle bo angen:

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai rhai cyflogwyr, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig, elwa o gyngor ymarferol ar fod yn gynhwysol o ran anabledd, addasiadau rhesymol a recriwtio pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Fe allai hyn gynnwys canllawiau syml, rhestrau gwirio ac enghreifftiau o addasiadau rhesymol.* Efallai y bydd staff cyflawni yn gallu teilwra'r cyngor a'r canllawiau hyn i anghenion cyflogwyr unigol.

Gweler [Argymhellion i gyflogwyr: recriwtio pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd](#) Rhaglen Tystiolaeth ar y Farchnad Lafur am gamau ymarferol y gellir eu hymgorffori mewn systemau recriwtio, arferion cyflogi ac arweinyddiaeth sefydliadol i gefnogi arferion recriwtio cynhwysol.



Gweithredu fel broceriaid:

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan staff cyflawni ALMP rôl fel cysylltwyr gweithredol rhwng eu rhwydwaith o gyflogwyr a'r cyfranogwyr y maent yn eu cefnogi. Er mwyn galluogi hyn, gall staff cyflawni greu cyfleoedd i'w cyfranogwyr yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gyd-destunau cyflogwyr unigol, gan gynnwys maint cyflogwyr, diwydiant ac anghenion sgiliau. Mae hyn yn rhoi hyder i gyflogwyr bod yr atgyfeiriad yn cyd-fynd â'u hanghenion, a gall y cynnig o gymorth parhaus gan staff cyflawni ALMP helpu i leddfu pryderon cyflogwyr.*

Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth werthuso a nodwyd drwy asesiad cyflym o'r dystiolaeth ar sut i gefnogi cyflogwyr i recriwtio pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Er mwyn dangos cryfder y dystiolaeth, rhoddwyd un o'r sgorau hyder canlynol i bob argymhelliad:

* *Dangosol* – cymedrol. Mae'r dystiolaeth y mae'r argymhellion hyn yn seiliedig arni yn awgrymiadol ac ni ellir ei chysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau. Mae o ansawdd cymedrol.

** *Dylanwad* – uchel. Mae'r dystiolaeth y mae'r argymhellion hyn yn seiliedig arni yn awgrymu bod y gweithgaredd yn dylanwadu ar y canlyniad, ond ni ellir dweud ei fod yn achosi'r canlyniad yn uniongyrchol. Mae o ansawdd uchel.

*** *Achosol* – cymedrol neu uchel. Mae'r dystiolaeth y mae'r argymhellion hyn yn seiliedig arni yn awgrymu cysylltiad achosol â chanlyniadau megis lliniaru rhagfarn negyddol tuag at anabledd. Mae o ansawdd cymedrol neu uchel.